


Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 249

Pris £1

Mis Tachwedd 2022



Mary Jones

Cawl coch?

Dyma ni ar drothwy'r gaeaf, ac er mor fwyn yw'r tywydd wrth i fi ysgrifennu'r geiriau hyn, fe gawn deimlo'r oerfel yn cau amdanom cyn bo hir. Felly, meddyliais y byddai'n amserol i gynnig rysait bach sydyn, addas iawn ar gyfer swper ar noson oer, neu rywbeth i'ch cynhesu wedi i chi ddod adre ar ôl mynd am dro ar brynhawn gwlyb a thywyll. Mae'r cawl hwn yn rhewi'n dda hefyd, ac yn barod mewn pum munud wedyn, os defnyddiwyd bopty ping i'w ddadmer a'i dwymo.



Fel y cofiwch, efallai, rwy'n ceisio osgoi bwyta gormod o fraster, ac felly, er bod y rysait gwreiddiol yn gofyn am ffrio'r wynwns nes eu bod yn feddal, rwy'n eu rhoi mewn i ferwi gyda'r llysiau eraill i gyd.

Bydd y rysait hwn yn bwydo 4 os yw'n cael ei weini fel prif gwrs, ond 6 os yw i lenwi bwlch - mae'n mynd yn dda iawn gyda bara a chaws. Dyma'r hyn a fwyteais cyn mynychu Eisteddfod y Cymoedd, ac rwy'n amau a fyddai'r Parti Llefaru buddugol wedi derbyn beirniadaeth mor galonogol petawn i heb gael digon o'r cawl hwn ymlaen llaw!

Cymerwch wynwnsyn cymedrol, cwpl o bannas neu foron neu datw melys (*sweet potato*) felly, a'u torri'n fân. Rhewch nhw i ferwi mewn 500ml o stoc llysiau gyda thri neu bedwar o domatos (neu dun ohonynt). Ychwanegwch 100gm o ffacbys (*lentils*) cochion, llond llwy fwrdd o bast tomato, hanner llwy de o deim sych, a halen a phupur at eich blas. Mae hefyd angen ychwanegu hanner llwy de o ddistylliad burum (*yeast extract*) - yn anfynd iawn y byddaf yn defnyddio hwnnw, ond mae'n ychwanegu at flas y cawl hwn mewn ffordd arbennig iawn.

Gadewch i'r cymysgedd fudferwi am 30 munud, gan ychwanegu rhagor o ddŵr (neu stoc, neu sudd tomato), os oes angen – gall ffacbys lyncu hylif! Cewch ddefnyddio llysiau eraill, neu ychwanegu ychydig o dsili, neu ddarnau o *chorizo*. Dyma rysait hyblyg iawn sy'n hapus i groesawu cynhwysion eraill. Felly, arbrowfch fel y mynnoch gydag e – ond cadwch y tomatos a'r ffacbys cochion, os ydych am gawl coch i lonni'r llygaid a thwymo'r galon ar ddiwrnod oer o aeaf!

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Gweplyfr/ Face book:

Papur Bro Cwmni

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dilys Williams

Gwefan: Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/




e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

Argraffir gan Tower Print, Bedwas

Llwyddiant Awdures o Fro “Cwmni”

Ein plaser yw llongyfarch cyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar ennill gwobr bwysig ym myd llenyddiaeth. Oherwydd mae Laura Morris, o Gaerffili, sy'n bennaeth ar adran Saesneg Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, Caerdydd, wedi ennill cystadleuaeth genedlaethol ysgrifennu stori fer. Roedd wedi cystadlu yng nghystadleuaeth Rhys Davies 2022 gyda'i stori “Cree”. Dywedodd y beirniad Rachel Trezise fod ei gwaith yn *“bristling with an irresistible melancholia and brimming with a bold confidence. Its maturity of tone lived long in my memory bringing me back to the story, bittersweet though it is, time and again.”*



Mae gan Laura radd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol o Brifysgol Bangor ac mae ganddi waith sydd wedi'i gyhoeddi a hyd yn oed wedi'i ddarlledu ar Radio 4. Y gystadleuaeth lle bu'n fuddugol oedd un ar gyfer awduron 18 neu'n hŷn a aned neu sydd wedi byw yng Nghymru am o leiaf dwy flynedd. Roedd y pwnc yn agored ond yn gyfyngedig i 5,000 o eiriau ac yn Saesneg. Enillodd yr athrawes 43 mlwydd oed wobwr o £1,000.

Mae ‘Cree’ yn stori am y cyfeillgarwch anghonfensiynol rhwng Meryl Williams, athrawes ysgol iau 55 oed, a Ben, ei disgybl ifanc. Gydag arolwg ysgol yn nesáu, mae Meryl a Ben yn adeiladu peiriant amser yn yr ystafell ddosbarth, yn y gobaith o greu argraff. Mae Meryl yn teimlo bod ei bywyd yn dirwyn i ben fel “tywod drwy awrwydr”, ond mae caredigrwydd Ben yn cynnig man diogel iddi, sef ei fersiwn ei hun o ‘Cree’..


Wrth dderbyn ei gwobr dywedodd Laura: “Cefais fy nghyflwyno i storïau byrion Rhys Davies yn y brifysgol pan oeddwn ond yn dechrau ysgrifennu. Mae'r modd mae Davies yn portreadu menywod yn dal i'm swyno i, gan fod menywod, a benywddod, yn ganolog i'm storïau i. Rydw i wrth fy modd fod fy stori fer, ‘Cree’, wedi ennill y dyfarniad hwn, gan fod y prif gymeriad, Meryl, erioed wedi ennill unrhyw beth! Mae'n fraint derbyn y gydnabyddiaeth hon, yn enwedig gan Rachel Trezise, awdur rwy'n ei hedmygu.”

Cyhoeddir y stori gan lyfrau Parthian yn y gyfrol, ‘Rhys Davies Short Story Award Anthology 2022’. Mae'r llyfr yn cynnwys 11 stori arall a gyrhaeddodd rownd derfynol y gystadleuaeth eleni a gellir prynu'r llyfr ar -lein gan Lyfrau ‘Parthian’ am £10 + 99c cludiant. Gellir cysylltu â: <https://www.parthianbooks.com/collections/pre-order/products/the-rhys-davies-short-story-award-anthology>

Lansiwyd y llyfr yn swyddogol yn Siop Waterstones, Abertawe, ar Hydref 13eg.

Mae Laura yn chwaer i Thomas Morris, awdur “We Don't Know What We Are Doing” a gyhoeddwyd gan Faber & Faber yn 2015.

Doedd athro Laura yn Ysgol Gymraeg Caerffili yn synnu dim o glywed am ei llwyddiant. Dywedodd Mr Dafydd Islwyn Huws ei fod ef ac athrawon eraill yn yr ysgol wedi synhwyro fod gan Laura dalent neilltuol pan oedd hi ond yn ifanc iawn.



Cynhelir y gystadleuaeth er cof am Rhys Davies a aned ym Mlaenclydach yn y Rhondda yn 1901. Roedd ymhlith yr awduron rhyddiaith Cymreig a ysgrifennai drwy gyfrwng Saesneg. Dywedir ei fod yn ymroddgar, toreithiog a medrus. Ysgrifennodd fwy na chant o storïau, ugain nofel a thair nofelig, dau lyfr topograffigol am Gymru, dwy ddrama ac un hunangofiant.

Cylchlythyr Llysgenhadon Cynradd y Glowyr

Fe gwrddodd y Llysgenhadon yng Nghanolfan y Glowyr ar Fedi 29. Roedd cynrhychiolwyr o ysgolion: Y Castell, Ifor Bach, Ysgol Gymraeg Caerffili, Plasyfelin, Twyn, St James, Y Santes Elen a Chwrt Rawlin.

Beth wnaethoch chi yn y cyfarfod?

Yn gyntaf siaradon ni am hanes yr adeilad ac wedyn cafon ni gwis am yr hyn oedden ni wedi ei ddysgu. Ysgrifennon ni restr o syniadau ar gyfer clybiau gwahanol a phenderfynon ni pa glybiau y byddwn ni eisiau eu trio.

Beth oedd eich barn am yr ardd? Beth sy'n ei gwneud yn ardd ar gyfer newid hinsawdd?

Roedden ni wedi mwynhau cerdded o gwmpas yr ardd a gweld yr holl blanhigion. Roedden ni wedi syfrdanu wrth weld y gwesty trychfilod enfawr o'r enw '*Bugingham Palace*'. Mae llawer o blanhigion ar gyfer gwenyn a phili-palod (*pollinators*) sydd yn helpu gyda newid hinsawdd. Mae llawer o gasgenni dŵr i gasglu'r glaw er mwyn dyfrio'r ardd, a gwirfoddolwyr sydd wedi gwneud yr holl waith. Mae meinciau eistedd yn yr ardd ar gyfer ymwelwyr ac mae pwll dŵr bach, ond does dim pysgod yno ETO!



Beth yw eich barn am yr adeilad? Beth ddysgoch chi am hanes yr adeilad?

Mae'r adeilad yn cŵl oherwydd roedd llawer o bethau wedi digwydd yno. Roedd hi'n ddiddorol dysgu bod y glowyr wedi talu am newid yr adeilad i mewn i ysbyty a bod yr adeilad gwreiddiol yn perthyn i James Piggot. Cafodd ei enwi'n *The Beeches* oherwydd roedd dwy goeden fedwen enfawr yn tyfu ar bwys y fynedfa. Talodd y glowyr £5,000 i newid yr adeilad ond erbyn heddiw, byddai hynny'n costio £350,000!!! Roedd yr ysbyty yn cael ei defnyddio gan y glowyr a'u teuluoedd i ddechrau ond yna gan y gymuned i gyd. Mae stori ryfedd am ferch ifanc oedd wedi mynd i'r ysbyty gyda thymheredd uchel. Doedd ei thymheredd ddim yn dod i lawr, felly roedden nhw wedi torri ei gwallt hir hyfryd er mwyn trio dod â'i thymheredd i lawr, ond doedd e ddim wedi gweithio! Daeth hi'n ôl i'r ysbyty pan oedd hi'n hŷn a phan gerddodd i mewn i'r ystafell lle cafodd ei gwallt ei dorri, daeth yr atgofion yn ôl. Mae 22 ystafell ar gyfer gwahanol bethau gan gynnwys caffi.

Pam mae'n bwysig cofio hanes yr adeilad?




Mae'n bwysig cofio hanes yr adeilad a'r glowyr oherwydd roedd yr ysbyty agosaf yng Nghaerdydd ac roedd angen ysbyty yng Nghaerffili. Roedd y glowyr yn cael eu cario i'r ysbyty ar gefn trol ac weithiau roedden nhw'n marw ar y ffordd achos roedd hi mor bell i Gaerdydd ac roedd y drol yn symud mor araf.

Beth fwynheuoich chi am y cyfarfod?

Roedd llawer o bethau i'w gweld a gwneud yno ac roedd hi'n ddiddorol clywed yr hanes. Rydyn ni wedi dysgu llawer! Roedd e'n dda clywed am y clybiau sy'n digwydd yno ac yn dda gallu rhoi syniadau am glybiau newydd. Roedden ni hefyd wedi mwynhau gweithio gyda phlant o ysgolion eraill.

Tyra-Jae Taylor ac Antonio Winter, Ysgol Gymraeg Caerffili

Medi 2022






‘Cofiwch Dryweryn’

Ffermdai Cyn Boddi'r Cwm

Lluniau Inc

Mary Jones



Merched y Wawr

Braint arbennig oedd croesawu Dr Cathryn Charnell-White, Pennaeth Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, i'n hannerch trwy gyfrwng Zoom ar Hydref 19.



Mae'r Dr Cathryn yn adnabyddus iawn yn y byd academiaidd am ei gwaith arloesol i gyfraniad menywod i lenyddiaeth yng Nghymru a thu hwnt. Mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau yn y maes, gan roi sylw teilwng i waith beirdd benywaidd Cymru mewn cyfrolau fel *Beirdd Ceridwen* (2005) ac mae'n cyfrannu'n gyson i gyfnodolion sylweddol a dylanwadol, fel *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion* a'r *Traethodydd*. Mae'n aelod o gyrff cenedlaethol pwysig, megis Bwrdd Llenyddiaeth Cymru, y Cyngor Llyfrau a Barddas. Roedd aelodau Merched y Wawr yn ymwybodol iawn bod ysgolhaig o'r radd flaenaf yn ein plith, ac felly estynwyd croeso i holl aelodau Rhanbarth De Cymru ymuno gyda ni.

Ond roedd croeso arbennig ac annwyl iawn i'r Dr Cathryn hefyd am ei bod hi'n un o ferched y cwm hwn: magwyd hi yma a chafodd ei haddysg gyntaf yn ysgolion Cymraeg y fro. Ac ar ben hynny, mae'n wir yn *ferch* i Ferched y Wawr, Cwm Rhymni, gan fod Linda ei mam yn aelod gyda ni - ac yn fenyw dalentog iawn ei hun.

Testun y Dr Cathryn oedd barddoniaeth a gyfansoddwyd gan fenywod Cymru, Iwerddon a'r Alban rhwng 1400 a 1800, menywod oedd yn barddoni yn ieithoedd brodorol y gwledydd hynny. Syndod i nifer ohonom oedd dysgu bod corff sylweddol o waith gan fenywod yn y cyfnod hwn, ond tynnodd Dr Cathryn ein sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r beirdd hyn yn perthyn i haen uchaf cymdeithas, ac yn aml yn perthyn i deulu o feirdd. Roedd eu statws cymdeithasol a diddordebau eu teuluoedd wedi sicrhau bod eu gwaith wedi ei gadw, er iddo gael ei esgeuluso am ganrifoedd wedyn.

Pleser oedd gennym ddysgu bod dros 200 o gerddi gan dros 80 o fenywod wedi eu cofnodi yng Nghymru. Talodd y Dr Cathryn sylw arbennig i'r enwocaf o'r beirdd hyn, sef Gwerful Mechain (c. 1460 - 1502), gan bwysleisio ei hagwedd heriol, ffeministaidd, ffraeth a di-flewyn ar dafod. Cawsom glywed un o'i cherddi enwocaf a darllen addasiad ohoni i Gymraeg gyfoes – ac rwy'n credu bod llawer ohonom yn falch ein bod yn cwrdd dros Zoom yn hytrach na wyneb yn wyneb – oherwydd os oedd y gerdd yn goch, dyna oedd lliw wynebau rhai ohonon ni hefyd!

Ond rhan o ddisgyblaeth yr ysgolhaig yw edrych yn fanwl ac yn wrthrychol ar destun, a'i ddehongli'n ofalus, er mwyn ceisio canfod meddylfryd yr awdur. Ac aeth y Dr Cathryn â ni heibio i'r sioc o weld – a chlywed – geiriau a delweddau mor faswedus, a'n harwain at feddwl miniog, hyderus a balch bardd oedd yn barod i ddathlu bod yn fenyw, ac i fynegi hynny'n groyw ac yn gelfydd.

Cawsom hanes un o gyfoeswyr Gwerful hefyd, sef y bardd Iseabal Caimbeul o'r Alban, a fu farw yn 1510. Roedd hi'n perthyn i deulu brenhinol y Stiwartiaid, ac un o nifer o feirdd yn y teulu hwnnw. Mae ei chanu hi yn debyg iawn i waith Gwerful Mechain – yn goch ei iaith, ond yn hyderus, yn ddysgedig, yn ffraeth, yn dathlu bywyd a chariad a bod yn fenyw.

Diolch i Dr Cathryn am gyflwyno peth o waith a bywyd y menywod dawnus hyn i ni – a phrofi bod rhagflaenwyr gan Bethan Gwanas. Roedd ein cyn-famau ganrifoedd maith yn ôl yn arddel y gwerthoedd ffeministaidd hynny sy'n ymddangos mor fodern i ni heddiw!

Merched y Wawr Cwm Rhymni

Dydd Mercher, 16eg o Dachwedd 19:00 ar Zoom

Anwen Hill “Ymweliad â Seland Newydd”



Hanes Dyddiau'r Wythnos

A sylwoch chi fod trefn dyddiau'r wythnos wedi newid yn ddiweddar? Dros y blynyddoedd diwethaf mae mwy a mwy o ddyddiaduron a chalendrau wedi penderfynu taw dydd Llun yn hytrach na dydd Sul yw diwrnod cyntaf yr wythnos. Newid bach efallai, ond un sy'n dadwneud un agwedd o chwyldro crefyddol a gweinyddol a ddigwyddodd bron 2000 o flynyddoedd yn ôl.

Mae'r Ymerawdwr Rhufeinig Cystennin yn un o gewri hanes. Yn ystod ei deyrnasiad (OC 306 - 337) llwyddodd i weddnewid yr Ymerodraeth Rufeinig. Un o'i newidiadau oedd i wneud Cristnogaeth yn brif grefydd yr ymerodraeth - un arall oedd cyhoeddi bod amser bellach i'w drefnu yn wythnos o saith diwrnod.

Dyna oedd y drefn yn y dwyrain canol ers canrifoedd lawer ac roedd yr arfer yn ymledu i Ewrop erbyn dyddiau Cystennin. Datblygodd yr arfer yn hen ddinas Babylon tua 700CC, mae'n debyg, pan benderfynodd y sêr-ddewiniaid gysegru diwrnod i bob un o'u duwiau. Saith prif dduw oedd ganddynt, yn cyfateb i'r saith planed yn eu dealltwriaeth nhw o'r bydysawd.

I'r sêr-ddewiniaid hyn, planed oedd yr haul – a'r pwysicaf o'r holl blanedau hefyd. Felly, diwrnod yr haul oedd diwrnod pwysicaf yr wythnos, yn rhagflaenu pob diwrnod arall. *Shamash* oedd enw'r Babyloniaid ar yr haul ond *Sol* oedd enw'r Rhufeiniaid arno, a dyna darddiad ein *Sul* ni heddiw. Mae'r cysylltiad â'r haul yn gliriach fyth yn Saesneg!

O wybod hyn, mae enwau dyddiau eraill yr wythnos yn dilyn patrwm: *Luna* yw'r lleuad yn Lladin, ac, felly, dyna enw ail ddiwrnod yr wythnos. Roedd y trydydd diwrnod yn eiddo i'r blaned *Mawrth*, a'r pedwerydd i'r blaned fwyaf, brenin y duwiau, sef *Iau*. Daw'r gair *Iau* ei hun o'r Lladin *Jovis*. Ond er taw Juno oedd brenhines y duwiau, mae dydd Gwener a'r blaned hefyd wedi eu henwi ar ôl duwies cariad, *Fenws* y Rhufeiniaid. Mae'r cysylltiad yn amlycach yn yr ieithoedd Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg, ond fe fydd yn rhaid i chi dderbyn fy ngair am y cysylltiad rhwng y gair *Gwener* a'r dduwies *Fenws* – oni bai bod Mr Golygydd yn barod i ganiatáu tudalen ychwanegol ar gyfer esboniadau ieithyddol?

A dyma ni wedi cyrraedd y penwythnos yn barod, sef dydd *Sadwrn*. Rwy'n siwr 'does dim angen nawr i fi egluro'r cysylltiad rhwng y diwrnod hwn a'r olaf o'r planedau oedd yn hysbys i sêr-ddewiniaid y gorffennol pell.

Rhyfedd yw meddwl sut mae cyfundrefn mor hynafol wedi parhau'n ddi-dor ar hyd y canrifoedd, ac fel y mae canfyddiadau seryddol yr oesoedd gynt wedi llywio trefn bywydau cenedlaethau – a chenedloedd – dirifedi. I ddychwelyd at yr Ymerawdwr Cystennin: un arall o'i benderfyniadau chwyldroadol efe oedd deddfu y byddai'r wythnos yn dechrau ar y Sul ymhob cwr o'i ymerodraeth eang. Hwnnw fyddai'r diwrnod sanctaidd i bawb, wedi ei gysegru i wasanaethu'r Duw Cristnogol. Ond dwi ddim yn gwybod pwy sydd wedi penderfynu newid y drefn oesol honno, a dechrau'r wythnos ar y Llun!



Cysylltwch â Vikki Pearce i archebu llyfrau, cardiau neu CDdau.

Defnyddiwch ei ebost: llyfraurenfys@gmail.com

neu ffonio ar **07956555265**.

Cefnogwch eich llyfrwerthwr lleol

Ysgol Gymraeg Caerffili



Ymweld â'r Llyfrgell Dros yr wythnosau diwethaf mae disgyblion o Flynyddoedd 2 i 6 wedi



bod yn ymweld â Llyfrgell Caerffili er mwyn cryfhau ymhellach eu cariad nhw tuag at ddarllen. Yn y llun fe welwn Claire Wyatt yn annerch ein disgyblion. Trafodwyd y themâu mae ein disgyblion yn dysgu amdanynt gyda Mrs Wyatt o flaen llaw a pharatowyd adnoddau llythrennedd i gyd-fynd gyda'r themâu yma yn y llyfrgell. Rydym yn naturiol yn annog cymaint o'n disgyblion ag sy'n bosib i ymaelodi gyda'r llyfrgell ar hyn o bryd!!

Roedd y sesiynau yma'n cyd-fynd yn wych gyda'n boreau agored lle gwahoddwyd rhieni o'r Meithrin i Flwyddyn 3 i'r ysgol i dderbyn trosolwg o sut ydym yn datblygu medrau darllen/llythrennedd ein disgyblion. Daeth dros 150 o rieni i'r ysgol i glywed cyflwyniadau ein staff addysgu a derbyniwyd adborth positif iawn ganddynt. Braff ydy gweld rhieni yn ôl yn ein hysgol!



Côr Yr Ysgol Fore Llun y 3ydd o Hydref canodd ein côr ysgol o flaen ein rhieni oedd wedi dod i drafod Adroddiad y Llywodraethwyr yn nodi perfformiad ein hysgol yn 2021-22 - un o'r blynyddoedd mwyaf llwyddiannus yn hanes ein hysgol. Cawsom arolwg arbennig yn Nhymor y Gwanwyn ar ôl cael ein dewis fel ysgol beilot gan Estyn. Llwyddodd nifer fawr o'n timau i ennill cystadlaethau Sir a Rhanbarth gan symud ymlaen i gystadlu ar lefel genedlaethol. Cawsom adolygiad NACE yn Nhymor yr Haf oedd wedi nodi pa mor effeithiol rydym yn ymestyn ein disgyblion Abl a Thalentog a ni oedd un o'r ysgolion cyntaf yn Ne-ddwyrain Cymru i dderbyn Gwobr Aur Y Siarter Iaith! Mae gan ein côr flwyddyn brysur o'u blaenau ac yn barod maen nhw'n paratoi i berfformio ar lwyfan Disney ym Mharis ym mis Mawrth!!


Clwb Technoleg Dyma blant y Clwb Technoleg. Mae clwb TGCh ar ôl ysgol bob Dydd Mercher yn nosbarth Miss Williams. Mae'r Clwb TGCh yn brysur iawn! Rydyn ni'n ymarfer ein sgiliau digidol ar y 'Chromebooks' ac yn defnyddio 'Google Classroom' i gwblhau gwaith. Rydyn ni'n hoffi ymarfer codio ar 'Hour of Code' ac yn edrych ymlaen at sesiwn codio gyda Barclays mis nesaf. Ein hoff beth am y clwb TGCh yw ymlacio gyda ffrindiau gwahanol a dysgu pethau newydd.



Gwasanaeth y Cynhaeaf Ar y 7fed o Hydref 2022,

perfformiodd dosbarth Mr Jones wasanaeth diolchgarwch godidog yng nghapel Ton-y- Felin. Perfformion ni i Gam Cynnydd 3 gyda rhieni'r disgyblion. Fel rhan o'r gwasanaeth roeddwn ni'n ddigon ffodus i gael Dr Eirian Dafydd i bregethu. Uchafbwynt y gwasanaeth oedd tynnu'r llun yn y pulpud. Ar fwrdd, yn y sedd fawr, roedd yna lwyth o fwydydd e.e. pwmpenni, bara, afalau. Cawsom ni ddiod a losin i ddathlu. Roedd Mr Jones yn falch iawn ohonom ni i gyd! Dosbarthwyd y bwyd oedd wedi cael ei roi gan deuluoedd ein hysgol i fanciau bwyd Caerffili ddydd Llun y 10fed o Hydref.

Erthygl gan Gwydion Jones




Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Fe wisgodd pob plentyn ddillad coch ddydd Gwener yr 21ain er mwyn codi ymwybyddiaeth ein disgyblion o'r effaith ofnadwy gall hiliaeth gael ar gymdeithas. Mae'n allweddol bwysig bod ein disgyblion yn cofio gwerthoedd ein hysgol wrth gyfathrebu, cydweithio a chydffw gyda phobl o wledydd, cymdeithasau a chredoau gwahanol. Arweiniodd dosbarth Miss Ashleigh Williams y gwasanaeth gan ddangos eu bod wedi dysgu am arwyr sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn y cymdeithasau a'r gwledydd lle roedden nhw'n byw, fel Nelson Mandela, Martin Luther King a Rosa Parks.

Diolch i Gwydion Jones am ysgrifennu'r erthygl am y Gwasanaeth Diolchgarwch ac i Jesi Todd am erthygl Eisteddfod y Cymoedd. Llongyfarchiadau hefyd i Gwydion am ddod yn ail yng Nghystadleuaeth yr Eisteddfod i blant oed cynradd am ysgrifennu stori.



Eisteddfod y Cymoedd, Buom yn edrych ymlaen at Eisteddfod y Cymoedd. Diolch yn fawr iawn i'r aelodau staff sydd wedi bod yn ein cefnogi. Bu côr yr ysgol yn perfformio 'Gerfydd fy Nwyllo Gwyn' mewn tri llais. Buom mor gyffrous ac yn edrych ymlaen i berfformio. Daethom yn ail i Ysgol y Castell wrth i ni gystadlu am y cwpan a roddwyd er cof am Mrs Anne Evans, a fu'n athrawes yn ein hysgol. **Dawnsio:** Bu ein tîm dawnsio creadigol yn ymarfer bob amser cinio. Maent yn gwneud symudiadau creadigol a mentrus a chydweithio yn hwylus. **Rhyddiaith:** Mae'r Clwb Clecs yn croesawu unigolion uchelgeisiol i ysgrifennu straeon cyffrous a cherddi hwylus. *Erthygl gan Jesi Todd*






2022





Lluniau Irfon Bennett www.irfonbennett.com



GAENOR JONES enillodd y gystadleuaeth am Gyfres o Luniau.

Dyma nhw: 1.Colomen Wen 2.Ein Planed 3. Ffesant

Rhyddidgan Colomen Wen

Gaynor Jones, Pentre'r Eglwys

(Seiliedig ar Offeren Heddwch Syr Karl Jenkins)

Ymdreiddiodd yr ymchwydd
yng nghuriadau'r trwmpedau a drymiau.
Taniwyd agoriad "L'homme armé"
a'r Offeren Heddwch ar dân.
Cantorion dros y mil
mewn undod soniarus, heddychlon.
Yng nghysgod wal Berlin.

Crefftwr cywrain dirodres
yw'r cyfansoddwr o Benclawdd.
Ei ddawn yn cyplysu nodau'r "Kyrle,"
yn staccato'r crosied du fel bwled farwol
a gwynder y minim fel cerrig beddau
diddiwedd y mynwentydd milwrol.
Erchylltra didostur,
heb degwch na thangnefedd.
Ein "Agnus Dei" anghofiwyd gan filoedd.

Egniol y canu a'r cofio
fu'n falm i'r enaid clwyfedig.
Eithafiaeth rhyfel yn wreichionyn
i'r "Angry Flames."
Collwyd gwaed, bywydau a rhyddid,
Ond nawr "Mae'r gynna'u'n fud."


Yr Englyn

1af Hapus

Mae'n braf cael gwenu'n llafar – a herio
â'n baneri lliwgar;
utgyrn yn bloeddio'n wlatgar,
yn un tîm yma'n Qatar.
Wal Goch (Dt John Lloyd, Caerffili)

Ail Englyn "hapus".

Mae pris trydan yn anodd. Am ryw awr,
mae'r haul yn dy wahodd
yn hoffus: "cei di ddiffodd
dy fŷlb". Ac rwy't wrth dy fodd
Lled (Alan Iwd, Didcot)



Y Gystadleuaeth Lenyddol

Ac yn gelain ym Mynwent Fferm Kandahar
fy hen ewythr Rees innau.
"Sanctus Dominus Deus Sabaoth
Pleni sunt caeli et terra, et terra Gloria.
Hosanna in Excelsis."

Trawiadol sain y trwmped yn cymell i ryfel
"Der Trompeten lauter klang."
Ond sain arallfydol y trwmped unig
sy'n ein harwain i'r coffa.
"How blest is he who for his country dies."

Wylofain perthnasau'r saith mil o Sofietiaid,
Orffwysa ym Mharc Treptower
yng nghysgod y cerflun trawiadol
o'r milwr â phlentyn yn ei gôl
tra'n difetha arwydd y Natsiaid.
Talsyth goed yn dystion cydwybodol.
"Benedictus qui venit in nomine Domine."
"Hochgelobt sie, der da Kommt im Namen des Herrn"

Realiti y presennol.
Â ninnau'n dwristiaid pybyr
drannoeth y gyngerdd
yn cyfranogi o'r "Kaffee und Kuchen" yn y Reichstag.
Anesmwyth y mwynhad
Pam guddiai'r melysdra a'r hufen
Erchyllterau'r crefftwyr cudd, y Gestapo peryglus
"Dona nobis Pacem"
Rhowch i'n heddwch.

Y Limerig

1af Fe ildiodd tîm Lloegr rai goliau,
gan wisgo crys coch ar eu cefnau.
Gyda'u cit oddi cartref
Roedd fy nryswch yn hunllef:
Ro'n i'n crio fel baban i ddechrau.
Llŷn (Alan Iwd, Didcot)

2ail Saif William a Kate yn y golau,
wrth wisgo'r crys coch ar eu cefnau,
yn yfed ein cwrw,
y ddau'n mynd yn feddw,
yn rhegi o flaen y camerâu!
Marlis (Tesni Peers, Rhosllanerchrugog)

3ydd Wrth wisgo'r crys coch ar eu cefnau
Cyfarwydd yw rhai o'r wynebau,
Harding a Ramsey
O deulu Cwm Rhymni,
Ein Cymry sy'n llwyddo'n y campau!
Dosbarth Mr Mac (Ysgol Gyfun Cwm Rhymni)

Cegin Smwt a Twts

“John byta dy fwyd” meddai ei fam am y nawfed gwaith. “Os ti ddim yn bwyta dy fwyd dim pwddin i ti! John” “Mae moron yn helpu ti i weld yn y tywyllwch” meddai Lili ei chwaer fawr. “Does dim ots!” sgrechiodd John “Mae moron yn blasu fel bin a mae tatws yn blasu fel wyau pwdr!”.

Yn y gornel roedd Smwt a Twts y cathod yn ymestyn ar y sofffa ddim yn cymryd mymryn o sylw o’r helynt mawr wrth y bwrdd bwyd. Yn sydyn, taflodd John ei lysiau ar daws y stafell. “Reit dyna ni ” gwaeddodd mam,”cer lan y grisiau ac aros lan y grisiau!”.

Llusgodd John ei draed i fyny’r grisiau fel petai ganddo gerrig trwm yn ei sanau. “Pam ydy Mam eisiau fi i bwyta llysiau iychi iach?” meddylodd.

Aeth John i’r gwely, ei fola yn gwegian. Roedd fel petai Smwt a Twts yn canu grwndi tu fewn iddo!

Erbyn hyn roedd hi’n ddu fel bol buwch ac roedd John yn chwynu fel mochyn pan wnaeth CRASH mawr ei ddeffro o’i freuddwydion. Sleifiodd i lawr y grisiau i ymchwilio. Beth oedd y fath TWRW!

Agorodd ddrws y gegin a gwelodd Smwt a Twts yn rhedeg ar draws y stafell gyda platiau a phowlenni yn eu pawennau. Roedden nhw yn gwisgo hetiau cogydd!

“Croeso i Caffi Twts a Smwt ” meddai Smwt. Rhwbiodd John ei lygaid ac edrych o’i gwmpas, a wir i chi, roedd byrddau bach wedi eu gosod gyda lliain bwrdd patrymog a canhwyllau a blodau yn dwt arnynt.

“Dere i eistedd. Mae lot o fwyd blasus yma” meddai Twts.

“Dach chi’n gallu siarad” meddai John yn syn.

“Wrth gwrs” meddai Smwt “Ond cyfrinach yw hi felly dydyn ni ddim eisiau i’r byd i gyd i wybod”.

“Ond pam ydych chi’n rhedeg caffi ynghanol y nos?” gofynnodd John.

” Wel mae’n rhaid i rhywun ddefnyddio’r gwastraff rydych chi’n ei daflu o amgylch “meddai Twts .

Edrychodd John o gwmpas a gweld pelen bigog yn rholio ling di long drwy’r fflap cathod.

"Helo Smwt a Twts! Oes ‘na rhywbeth i fwyta yn y caffi i helpu draenog i weld yn y tywyllwch? Dwi ddim yn gallu dal yr un falwen na gwlithen heno a nhw yw fy ffefrys” meddai Mr Snwffwls gan eistedd ar un o’r byrddau.

“Mae gynnon ni yr union beth” atebodd Smwt wrth frysio i’r gegin Dilynodd John Smwt i’r gegin ac roedd Twts yn coginio cawl moron. “Eistedda lawr gyda Mr Snwffwls i brofi’r cawl ” meddai Smwt.

Cymerodd John un llwyaid o’r cawl a dywedodd “Mae’r cawl yma mor anhygoel! “iym iym” meddai Mr Snwffwls.” Mae’r cawl yma mor felys” meddai. “Croeso” meddai Smwt a Twts, ac mae moron yn helpu i chi weld yn y tywyllwch!” “Mae’n amser i ni fynd i’r gwely nawr “meddai’r cathod. “Ond cofia, cyfrinach ni yw hon felly paid a dweud wrth unrhywun”

Y DIWRNOD NESA Roedd John a’r teulu’n cael swper o lysiau iachus pan edrychodd John ar y cathod a rhoddon nhw winc fach iddo. Roedd John yn amlwg wedi dysgu ei wers ac yn gwybod bod gwastraff bwyd yn ddrwg i’r byd a bod llysiau yn dda i’r corff felly aeth ati i sgloffio ei lysiau heb ffws a rhoi winc bach nôl i’r cogyddion bach.

Colofn y Dysgwyr

Ann Lewis

Mae'r dydd yn mynd yn fwy byr a'r gaeaf ar ei ffordd. Yn yr hen ddyddiau, roedd pobl yn arfer eistedd o gwmpas y tân ac adrodd storïau yn ystod nosweithiau'r gaeaf, ac yn y gerdd yma gan T Llew Jones mae'n cofio'r storïau roedd ei fam-gu, neu nain, yn arfer eu hadrodd am bentref hyfryd o'r enw Cwm-pen-llo, ble roedd hi'n byw pan oedd hi'n blentyn. Roedd bywyd yng Nghwm-pen-llo yn berffaith ac roedd atgofion mam-gu i gyd yn rhai hapus. Beth mae'r bardd yn ei ddweud am fam-gu yn y ddwy linell olaf?

Cwm-pen-llo

Ar lawer noson gynt pan own i'n grwt,
A gwynt y gaeaf'n chwiban yn y clo,
Doedd dim yn well gen i na chlywed Nain
Yn adrodd hanes difyr Cwm-pen-llo.

Mil gwell na chwedlau'r Tylwyth Teg a glywn
Yn nosbarth y plant lleiaf ambell dro,
Oedd clywed hanes Nain yn eneth fach
Yn byw ym mhentref hapus Cwm-pen-llo.

Roedd yno bobol ryfedd iawn yn byw -
Byth yn cweryla na mynd ma's o'u co',
Ac er bod pawb mor llwm â llygod bron,
Roedd digon gan bob un yng Nghwm-pen-llo.

A byddai pawb yn helpu ddiwedd haf
I gael y cynaeafau o dan do,
Ac nid oedd neb yn cyfri'i oriau gwaith
Na chwyno ar ei fyd yng Nghwm-pen-llo.

Er i mi ofyn iddi lawer gwaith -
Ni ddwedodd Nain erioed ble roedd y fro,
Ond pan aeth hi i ffwrdd a'n gadael ni,
Mi wn yn iawn ble'r aethi Gwm-pen-llo.

atgofion : memories crwt : boy chwiban : whistle difyr : amusing, entertaining
chwedlau'r Tylwyth Teg : fairy tales geneth : girl cweryla : to quarrel mas o'u co' : mad llwm : poor
llygod : mice cynaeafau : harvests cyfri'i oriau gwaith : counting their working hours
chwyno : to complain bro : area, district

Hanes Cwm Ni

Darllediad Fideo Noson Lawen.
Trafodaeth a sgwrs fideo hanesyddol

Clwb Rygbi Penallta


03/11/22
7pm

Croeso cynnes i bawb

Am ragor o fanylion
Joshua.Wheeler@coleggwent.ac.uk



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent



Capel Gwladys

Ewch i ben comin Gelligaer o gyfeiriad Ysgol Gyfun Heolddu a rhyw ddau gan llath ar yr ochr dde i'r heol, cyn i honno gyfarfod a Heol Adam, gwelwch adfeilion hen Capel Gwladys. Yn wir, adwaenir y tir o gwmpas yr ardal hon fel Tir Gwladys. A pwy oedd y Gwladys yma, meddech chi?

Wel, roedd Gwladys yn un o nifer o blant Brychan, arglwydd Brycheiniog. Brychan, wrth gwrs,



roddodd i ni'r enw "Brycheiniog". Roedd Gwladys hefyd yn un o chwirydd Tudful a fu'n gysylltiedig â'r sefydliad Cristnogol cyntaf ym Merthyr Tudful. Priododd Gwladys Gwynllyw Filwr, un a gofir yng nghadeirlan Sant Woolos yng Nghasnewydd ac a roddodd ei enw i'r Ysgol Gyfun Gymraeg ym Mhont-y-pŵl.

Pan wrthododd tad Gwladys iddi briodi Gwynllyw, dywedir i Gwynllyw fynd â 300 o filwyr i gipio Gwladys o lys ei thad yn Nhalgarth a dod â hi i fyw i Foch Riw Carn, Fochriw i ni heddiw. Mab Gwladys a Gwynllyw oedd Cadoc ac mae'r eglwys blwyf yng Ngelligaer wedi'i henwi er cof amdano.

Credir mai Cadoc a Gwladys a arweiniodd Gwynllyw i roi'r gorau i ryfela ac i sefydlu meudwyfa (*hermitage*) yn y man a adwaenir heddiw fel Stow Hill yng Nghasnewydd. Aeth yno i geisio maddeuant am ei

bechodau. Dilynodd Gwladys ef i fyw fel meudwy a buont yn byw gyda'i gilydd gan ymptydio ar fwyd llysieuol ac ymolchi yn nŵr oer yr afon Wysg. Cyn dod i Gelligaer mae'n debyg y sefydlodd Gwladys feudwyfa ym Mhencarn, Bassaleg ger Pont Ebwy.

Adeiladodd Gwladys ei chapel ar fynydd Gelligaer am fod y safle yn agos i le y bu hi a'i gŵr yn byw. Credir mai yn ystod y chweched ganrif oedd hyn ac roedd mewn ardal oedd hefyd yn agos i le roedd y Rhufeiniaid wedi bod cyn hynny. Daethpwyd o hyd i'r safle yn 1906 pan oedd yr awdurdod lleol yn edrych am safle ar gyfer mynwent newydd yn yr ardal. Pan ddaethpwyd o hyd i garreg ac arni Groes Geltaidd, penderfynwyd fod y tir yn fan cysegredig. Cludwyd y groes i eglwys Sant Catwg yng Ngelligaer ac wedyn i'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae rhedyn bellach yn gorchuddio llawer o'r safle ond gellir gweld y groes o'r heol.

Neuadd Bedwas

Wendy Lewis

Mae cynllun ar gyfer canmlwyddiant Neuadd Bedwas (2023) yn mynd ymlaen. Rydyn ni wedi meddwl am 4 digwyddiad i'w cynnal dros y flwyddyn, sef:

- Gwanwyn: Eisteddfod fach yn y Neuadd - canu, drama, celf, barddoniaeth
- Haf: Ffair gyda stondinau, gemau, reids bach
- Hydref: hanner tymor - Ailgylchu dillad, bwyd am ddim, celf a chrefft a gyda deunyddiau am ddim
- Gaeaf: Fideo o'r holl ddigwyddiadau dros y flwyddyn – rydyn ni'n gobeithio bydd myfyrwyr adran ffilmiau dogfennol Prifysgol Caerdydd yn helpu i wneud ffilm i'w dangos ar ddiwedd y flwyddyn.
- Hanes a ffilmiau - Ms Rhymney Valley, Proud Valley, The Crown, fideos Mike James ac ati.
- Cyfweiliadau ac atgofion - angen gwneud apêl am atgofion pobl am yr hen sinema, y clwb ieuenctid, gweithgareddau yn Neuadd Bedwas, cyngherddau arbennig (ee ymweliad Joan Sutherland). Mae llyfrgell Bedwas yn cynnal diwrnodau i gasglu atgofion, ac arddangosfa gwaith rhwng cenedlaethau mewn ysgolion - plant a phobl hŷn.



Heddiw rydyn ni wedi rhoi cynnig ar y taflunydd ar gyfer "Lleisiau'r Cyfnod Clo"- mae'n anhygoel gweld ein fideos ni ar y sgrîn enfawr!

Parc Undod, Malgrat de Mar

(Ail ran hanes Wendy yn Sbaen)

Lluniodd Rob gerflun, ar sail delweddaeth *brigadistas* arddulliedig (*stylised*), breichiau wedi'u dyrchafu mewn saliwt o undod, a chegau yn agored mewn cân, adleisiwyd eu siâp ym mordyllau'r llong. Byddai'r cylchoedd hyn yn cael eu llenwi'n raddol gan ddyluniadau o waith myfyrwyr lleol, a arddangoswyd yn yr *Archivos*, a'r cyhoedd wedyn i ddethol y rhai oedd i'w cerfio mewn carreg. Roedd ymrwymiad cymunedol yn ganolog i weledigaeth Rob, a chynhwysodd nifer o ysgolion, grwpiau ac unigolion i helpu i gynllunio a llunio'r greadigaeth derfynol, gan gynnal gweithdai cerfio carreg yn y dre.

Cerddom ni drwy strydoedd Malgrat dan ganu; ymunodd rhai Americanwyr ni yn Nyffryn Jarama. Roedd cwpwl lleol wrth eu boddau yn canu anthem Catalan *Els Segadors* ("Y Cynaeafwyr") gyda ni.

Mewn sgwâr cysgodol cynhalion ni'r ymarfer ar gyfer y gyngerdd drannoeth. Ysgrifennwyd un gân, *L'Estaca* ("Y Stanc"), yn ystod dyddiau tywyll Franco. Roedd Lyn wedi cyfieithu'r geiriau Catalaneg i'r Gymraeg, ac fe ddramateiddiodd Olwen y neges o undod gyda rhaffau wedi'u gwneud o rubanau, a dynnwyd at ei gilydd i ddymchwel y postyn yr oedden ni wedi'n clymu iddo.

Yn y caffi cawsom gyfarfod, yn y cnawd, y bobol y buom yn cysylltu â nhw dros Zoom ers blwyddyn. Ac wrth gwrs, allen ni ddim peidio canu cân neu ddwy. Neu dair.



Fore Sadwrn ymgasglodd y corau - o Gatalonia, Sweden, Croatia, Ffrainc, Lloegr a Chymru - mewn ystafell fawr yn y ganolfan gymunedol i ymarfer yr *Himno de las Brigadas Internacionales* ("Anthem y Brigadau Rhyngwladol") ar gyfer seremoni agoriadol y parc cerfluniau. Roedd hi'n wych cael cyfarfod â chantorion ar draws Ewrop gan rannu caneuon. Roedd y gyngerdd yng ngerddi *Archivo* yn enghreifft o draddodiadau canu amrywiol iawn, ond rhannai pob un y neges o undod. Roedd nifer yn gyfarwydd i ni – *Bread and Roses*, *La Lega* ("Y Cynghrair") a chaneuon rhyddid Affrica - ac wedi'r gyngerdd fwy ffurfiol buom yn canu tan yn hwyr y nos. Goresgynnon ni gaffi cymunedol *El*

Rovell, gan dynnu cadeiriau allan i'r stryd a llwyddodd Carwyn a Tad ddod o hyd inni drwy ddilyn eu clustiau.

Roedd prif agoriad y cerflun ddydd Sul, gydag areithiau gan gynghorwyr a Maer Malgrat mewn Catalaneg, Sbaeneg a Saesneg. Disgrifiodd Rob yn deimladwy ei siwrnai i wneud y gwaith, a sut cafodd ei ysbrydoli gan undod a ddangoswyd gan y Brigadau Rhyngwladol. Ffarwelion ni â'n ffrindiau corawl newydd, gan addo ymweld â Dubrovnik a Malmo.

Bu dydd Llun yn adeg fwy myfyrion i'r teuluoedd. Wedi coffi ar y traeth roedd gyda ni gyfle i sylu'n fwy manwl ar y gofeb. Eisteddais yn darllen y plac oedd yn esbonio'r gofeb. Map o'r byd sy'n ffurfio sylfaen y cerflun. Wrth i'r haul symud roedd cysgodion y cerflun yn newid a'r cegau ar agor mewn cân yn troi'n galonnau. Gadawyd un ffigwr heb geg, yn symbol o'r bywydau a gollwyd a oedd heb lais.

Wrth osod y blodau, canodd Côr Cochion eiriau Cymraeg Plethyn i araith Martin Luther King, "Mae Gen i Freuddwyd"; breuddwyd am fydd heb ryfel na newyn, lle bydd du a gwyn, a holl bobl y byd, yn cerdded law yn llaw.

Roedd hi'n bwysig i ni fod yno'r funud honno. Rhoddodd digwyddiadau trawmatig 1937, a rwygodd deulu fy mam gan adael gwacter o dawelwch a galar, le i iacháu drwy'r weithred hon o gofio. Bu Ray a finnau yn Malgrat ddeng mlynedd yn gynharach, pan oedd y gofeb yn ddim byd ond breuddwyd, ac roedd yn bleser ei weld wedi'i gwblhau gyda'r fath lwyddiant.



Colofn Dafydd Islwyn

Un o'm hoff gerddi gan T. Llew Jones ydy 'Aberfan', y gerdd a drafodwyd yng Ngholofn y Dysgwyr y mis diwethaf. Onid yw hi'n hen bryd newid ei theitl i 'Colofn Siaradwyr Newydd'? Onid ydym ni i gyd yn ddysgwyr? Term arall mae'n hen bryd i ni ei ddefnyddio ydy 'Cymru Prin Eu Cymraeg' yn lle'r llabwst o derm 'Cymry di Gymraeg'. I mi does dim ffasiwn bobol mewn bod. Oni chafodd Dr Dafydd Huws, Ffwrnes Blwm, ei chlywed hi gan Dr Jac L. Williams, Aberystwyth, am ddefnyddio'r term yn ei glyw? Cofiais am hyn pan glywais Rhiannon Evans, Tregaron, yn sgwrsio â Beti George ar y rhaglen 'Beti a'i Phobl' ddydd Sul yr ail o Hydref eleni. Gan fod ei mam yn ferch o Gaerffili, soniodd am ei chysylltiad agos â'r dref. Yng Nghaerffili yr oedd y teulu yn byw pan enillodd Jac L. Williams (1918-77) ar y stori fer yn y Genedlaethol yn 1948. Symudodd y teulu yn fuan wedi hynny i Gaerfyrddin.

Chlywais i erioed T. Llew Jones yn llefaru'r gerdd ond fe'i clywais yn llefaru 'Sgrap' gan ei gyfaill mynwesol Alun Cilie. Sôn am enillydd yr englyn yn y Genedlaethol 1950 yn llefaru cerdd, mae rhywun yn cofio am brofiad y diweddar Emyr Price yn ffilmio rhaglen am Fois y Cilie gyda T. Llew. Sais rhonc oedd y dyn camera a chyn dod i weithio yng Nghymru roedd ef wedi gweithio yn Llundain. Yno, ffilmiodd actorion adnabyddus Lloegr fel John Gielgud a Ralph Richardson. Ffilmwyd T. Llew yn llefaru un o gerddi Saesneg Tydu Jones "yn ei lais melfedaidd arbennig". O'i glywed, gofynnodd y dyn camera i Emyr Price, "Who is this guy?" Eglurodd bod ganddo fwy o bresenoldeb o flaen camera nag unrhyw un arall a ffilmiodd erioed - a chanddo well llais.

Ceir hanes gweithio'r gerdd 'Aberfan' mewn dwy gyfrol. Yng nghofiant T. Llew Jones, 'Tua'r Gorllewin', mae Idris Reynolds, oedd yn ei werthfawrogi, yn dweud: "Yr oedd ei alwedigaeth fel athro ysgol yn dwysau'r drasiedi iddo... o'r holl gerddi a ysgrifennwyd gan ein beirdd i drychineb Aberfan mae'n anodd meddwl am un a gafodd fwy o effaith ar y genedl yn eu hiraeth syfrdan."

Yn y gyfrol 'Dagrau Tost - Cerddi Aber-fan', a olygwyd gan Christine ac Wyn James, Cyhoeddiadau Barddas 2016, dywedir i'r gerdd gael ei chyhoeddi yn Y Cymro, ar y 3ydd o Dachwedd 1966. Eglurwyd uwch ei phen:

"Teledwyd nifer fawr o raglenni yn ymdrin â thrychineb Aberfan, ond prin i unrhyw eitem yn Gymraeg na Saesneg gael yr un effaith â'r cerddi a ddarllenwyd i gloi rhifyn dydd Llun, 24ain o Hydref, o Heddiw ar BBC Cymru. Ar gais nifer o ddarllenwyr a thrwy ganiatâd Uned Heddiw y BBC cyhoeddwn hwy isod. Yr awdur yw T. Llew Jones".

Ddyddiau wedi i mi orffen sgwennu am farddoniaeth ar gyfer Ysgol Lewis, Pengam, yn rhifyn mis Hydref, cefais hyd i'r gyfrol 'Apocryffa Siôn Cent' yng nghyfres 'Beirdd yr Uchelwyr'. Ynddi ceir cyfeiriad at gyfrol 'Gwaith Siôn Cent' gan T. Mathews 1914. Flwyddyn yn ddiweddarach yr oedd yn golygu cyfrol am lolo Goch. Mae'r ddwy gyfrol yn perthyn i 'Gyfres y Fil', cyfres a sefydlwyd gan O. M. Edwards (1858-1920). Yn 1901, un T. Mathews i 'lolo Goch' oedd yr olaf. Pwrpas y gyfres oedd ennyn diddordeb y werin Gymraeg yn eu llenyddiaeth a'u hanes. Yn 1907 penodwyd O. M. Edwards i swydd Prif Arolygwr Ysgolion Cymru. Yn rhinwedd ei swydd ymwelodd ef ag Ysgol Lewis, Pengam, yn 1912 a chyfarfod â Tom Mathews, athro yn yr ysgol. (?) Mae lle i gredu hyn yn bendant oherwydd yn ei gylchgrawn misol 'Cymru', a sefydlodd yn 1891, rhifyn Medi 1912, mae'n adolygu 'Llên Gwerin Blaenau Rhymni'. Meddai: "Y mae o'n lyfr na welais erioed o'r blaen sef llyfr wedi'i wneud gan nifer o blant ysgol..... gwaith campus oedd gwaith yr athro a'i ddisgyblion." Ar gorn y gwaith o olygu'r gyfrol honno y gwahoddwyd Tom Mathews i olygu dwy gyfrol i Gyfres y Fil, tybed?

Yn y gyfres cyhoeddwyd un am Caledfryn, a fu'n weinidog yn y Groes-wen o 1858 tan ei farw yn 1869. Trueni na fuasai Tom Mathews wedi cynnwys ei englyn 'Cymru', un yn ymateb i Frad y Llyfrau Gleision 1847, yn ei gyfrol 'Barddoniaeth ar gyfer Ysgol Lewis, Pengam'.

Cymru

Mawryga gwir Gymreigrwydd – iaith ei fam,
Mae wrth ei fodd beunydd;
Pa wlad wedi'r siarad sydd
Mor lân â Chymru lonydd?

Anialwch yn yr ardd....

Mae lliwiau hardd yr hydref o'n cwmpas ymhobman erbyn hyn, a bydd y lliwiau hynny yn dwysáu yn ystod yr wythnosau nesaf. Rwy'n siwr bod blodau lliwgar yr hydref i'w gweld yng ngerddi llawer o ddarllenwyr *Cwmni* – ond nid felly y mae yma. Cwpl o rosod yn dal i flaguro, ond eiddil yw'r blodau; y pys pêr wedi hen orffen, a bylbiau'n cysgu yn y potiau hynny nawr, dan orchudd o bridd, a'r blodau eraill i gyd wedi eu trechu gan y gwres, neu'r sychder, neu law trwm yr wythnosau diwethaf, neu, rwy'n ofni, gan esgeulustod yr arddwreg.


Ond gwaeth na hynny – i fi, beth bynnag – yw'r anialwch yn yr ardd lysiau. Mae modd i'w gyfiawnhau i raddau – y ffa a'r wynwns a'r betys wedi eu tynnu i gyd, a'r pridd yn aros i gael ei balu a'i wrteithio ar gyfer y tymor nesaf. Mae dail anferth y corbwmpenni yn dirywio'n hyll, ond mae cwpl o'r ffrwythau'n dal i ddatblygu'n addawol yn eu cysgod; felly, fe gawn nhw lonydd am y tro. Ond beth am y cnwd amlwg o chwyn sydd i'w weld yn y llun? Esgeulustod yr arddwreg yw'r unig esboniad dros hynny, ac fe fydd yn rhaid mynd ati o ddifrif i glirio'r patsyn bach, pan gawn dywydd ffafriol.



Nid ydwyf wedi bod yn gwbl ddiog, serch hynny. Es i ati ryw fis yn ôl i blannu dwy res fach o gêl a bresych – dim llawer ohonynt, gan gofio mor hirhoedlog oedd y cêl a blannais y llynedd! Jyst ddigon i ddarparu ychydig o lysiau gwyrdd, ffres dros fisoedd y gaeaf – dyna oedd y cynllun.

Ond sylweddolais yn fuan iawn bod gelyn yn crwydro fy ngardd ac yn ceisio dadwreiddio a distrywio'r planhigion bach diniwed hyn. Teimlais fel y brenin Gwrtheyrn: yn codi yn y bore a gweld ei waith wedi ei chwalu dros nos. Ond doedd dim angen i fi gael proffwyd na dyn hysbys i egluro pethau i fi. Roedd gelyn fy mhlanhigion bach yn cysgu'n braf yn yr haul, ac yn canu grwndi'n bert wrth lygadu'r ardd.

Ie, Pws yw gelyn y bresych a'r cêl. Iddi hi, mae pob darn o dir sy'n cael ei balu a'i blannu wedi ei glirio er mwyn hwyluso ei gwaith hi yn yr ardd, sef ei gwrteithio. Nid yw'n sylwi ar y planhigion bach tila, nac ar unrhyw rwystrau a osodaf i'w diogelu rhag ei phawennau! Yr unig beth sydd yn amddiffyn y planhigion bach yw darnau o bren wedi eu gosod fel dannedd o'u cwmpas. Trwy wneud hynny, llwyddais i arbed rhai o'r llysiau – ond rhai yn unig. Serch hynny, rwy'n ffyddiog bydd y planhigion sydd wedi goroesi ymosodiadau Pws yn rhai arbennig o iach a chryf. Cawn weld!



**CLWB CERDD
CWM RHYMNI**
Rhif Elusen: 1089092

Dydd Sadwrn, 19eg o Dachwedd

2:30 Capel y Methodistiaid, Ystrad Mynach

Ridgeway Ensemble (Llais, Cello, Piano)

Digwyddiadau Hydref & Gaeaf


Menter Iaith Sir Caerffili

Gwahoddir chi yn gynnes i'n - A warm invitation to our
CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

ANNUAL GENERAL MEETING

6:00yh - Bwffe ysgafn i ddechrau/Light buffet to start
Nos Fawrth, Tachwedd 22ain - **Tuesday, November 22nd**

Canolfan y Glowyr/Caerphilly Miners Centre, Caerffili, CF83 1BJ

Cyfle i glywed am ein gwasanaethau diweddaraf a chael cyfle i drafod datblygiad y Gymraeg yn Sir Caerffili

An opportunity to hear about our latest services and to discuss the development of the Welsh language across Caerphilly County Borough

Simultaneous translation will be provided

RSVP
lowrijones@mentercaerffili.cymru

01443 820913

Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968



 **Menter Iaith Sir Caerffili**

 **SESIYNAU SGWRS** 

Bore Coffi agored - Open to all Coffee morning
Dydd Mawrth 10:00-12:00 Tuesdays
@Coffi Vista Caerffili

Bore Coffi agored - Open to all Coffee Morning
Dydd Iau 10:30-12:30
@ Wetherspoons Coedduon

Sadwrn Siorod fisol - Monthly Saturday chat
Dydd Sadwrn olaf pob mis - Last Saturday each month
10:00-12:00
@ Lleoliadau amrywiol - Locations vary monthly

 bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913

 MENTRAU IAITH


Menter Iaith Sir Caerffili

Taith Siopa Nadolig i Cheltenham

Tachwedd 19 November 2022

Casglu/Pick-up:
8am -Gorsaf Bws Caerffili Bus Station
8.15 - Tesco Ystrad Mynach

Gadael/Leave Cheltenham @ 5:30pm

Ewch i www.mentercaerffili.cymru ac archebwch le

£12.50

Go to www.mentercaerffili.cymru to book your place





Am wybodaeth pellach/Further information:
lowrijones@mentercaerffili.cymru

 Mwynhau'r Gymraeg

Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968

 MENTRAU IAITH

 **Menter Iaith Sir Caerffili**

Ffair Nadolig
@ LLANCAIACH FAWR, NELSON

TACHWEDD 26 NOVEMBER
11:00-3:00

OEDOLION/ADULTS £1


GROTO SION CORN
SANTA'S GROTTO
£8
RHAI D BWCIO/YOU MUST BOOK@
WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU


STONDINAU, BWYD A DIOD
STALLS, FOOD & DRINK


PERFORMIADAU A GWEITHGAREDDAU
PERFORMANCES & ACTIVITIES

 Mwynhau'r Gymraeg

 **Menter Iaith Sir Caerffili**

Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968

 MENTRAU IAITH